

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
1 Gorffennaf 2024 am 8.00 o'r gloch yn Festri Capel Llangeitho
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
1 July 2024 at 8.00 pm at The Vestry, Llangeitho

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod / *The Chair welcomed everyone to the meeting.*

Presennol/Present

Cyng Beryl Evans (Cadair/Chair), Daniel Thomas, Gwilym Evans, Sarah Evans, Gwenfair Owen, Myrddin James a Cyng/Cllr Ieuan Gwynne

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng/Cllr Rhian Turner, Emyr Jones, Gerwyn Ebenezer, Cyng/Cllr Rhodri Evans & PCSO John Evans.

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / *No one*

Adroddiad yr Heddlu / Police Report

Yn absenoldeb yr Heddlu, cylchredwyd adroddiad yr heddlu drwy e-bost.

Soniwyd am y difrod i'r pot blodau o dan arwydd Stags Head ger Penrhiw Villa/Helen House, y pot pren blodau wedi cael ei daflu i'r llawr dros dwsin o weithiau a'r blodau i gyd wedi'u dwyn fesul 1 bob dydd. Clerc wedi trefnu bod y pot blodau yn mynd oddi yno am ychydig ond cytunwyd pe bai ychwaneg o flodau i gael rhoi cyfle i'r bocsy fynd nol i'w le, gan adrodd hyn i'r heddlu.

Due to the absence of the police, the report was distributed by email.

It was noted that flower contained under the Stags Head sign near Penrhiw Villa/Helen House, the wooden contained had been displaced over a dozen times and the flowers had been taken one by one. The Clerk had arranged that the wooden container was taken away for a period, but it was agreed if there were more flowers available then the wooden contained should be returned before reporting to the police.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Gwenfair Owen.
The minutes of the previous meeting were passed correct – proposed by Cllr Gwilym Evans and seconded by Cllr Gwenfair Owen.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Cyng Daniel Thomas i ofyn cyngor ar sut i ddod o hyd i'r deunydd sydd i'w gadw tu fewn i'r bocsyys diffib.
Cllr Daniel Thomas to request advice on how to procure equipment to be kept in the defib boxes
- Mrs Katie Evans wedi'u enwebu i fod yn gyfrifol am y peiriant diffib ar leoliad 'Yr Hungry Ram' Penuwch, Clerc i wirio os yw'r peiriant wedi'u gofrestru ar 'Y Circuit'.
Mrs Katie Evans was the person responsible for the defib machines at "The Hungry Ram", Penuwch The Clerk to verify is the machine had been registered on "The Circuit".
- Cwmni BARCUD dal yn ymchwilio mewn i'r lleoliad ym Mro Gwynfil ar gyfer parcio ychwanegol, mewn cysylltiad a Cyng Rhodri Evans.
BARCUD still making enquiries regarding additional parking at Bro Gwynfil, in touch with Cllr Rhodri Evans.
- Ymchwiliad yn parhau rhwng y Cyngor Sir Ceredigion a'r ddau le ym Mhenuwch, a oedd o gonsyrn mawr i'r gymuned. Soniwyd bod nifer fawr o achosion tebyg i hyn yng Ngheredigion angen sylw'r Cyngor Sir.
Enquiries ongoing into the situation at the two locations in Penuwch that is of concern to the community. It was noted that there are similar cases in Ceredigion and being investigated by the County Council.
- Canlyniadau'r llinellau cyflymdra sydd ar groes y ffyrdd yn ein Cymuned dal heb ei derbyn.
The results of the speed lines place within the community had not been received.
- Perchennog ffens y parc yn Llangeitho, dal heb gwblhau codi'r ffens, ond un panel wedi'u leoli wrth ymyl y gweddill i wneud ffin y parc yn ddiogel i blant ac o flaen yr arolwg ym mis Mehefin.
The owner of the park fence in Llangeitho had not completed the work on the wooden fence, but one panel had been secured to make it safe for children prior to the inspection in June.

- Yn dilyn tystiolaeth allan o'r hen gofnodion, cytunwyd mae'r Cyngor Cymuned oedd perchnogion yr hen cysgodfan bws yn Tro Pair. Clerc i gysylltu ac Un Llais Cymru am gyngor yn dilyn arolwg diwedddara.
Following receipt of evidence from old minute books it was agreed that the Community Council were the owners of the old bus shelter at Tro Pair. The Clerk to contact One Voice Wales for advice following a recent inspection.
- Nid oedd y gwaith o dorri'r cloddiau ar ben lôn Ffoslas, Penuwch ynghyd a lôn Pantyresgair, Penuwch wedi'u wneud hyd yma.
The hedge cutting at the top of Ffoslas, Penuwch and the lane to Pantyresgair, Penuwch had not been carried out yet.
- Angen ail baentio'r llinellau gwyn ar groesffordd Glanwern, Penuwch a'r sgwâr yn Llangeitho. *The white lines at the junction near Glanwern, Penuwch and Llangeitho square need to be painted.*
- Angen cyfieithiad Saesneg o'r llythyr sydd i'w gadw wrth law ynglŷn ag arwyddion cyflymdra 20mya.
English translation of letter now to be kept in reserve regarding 20mph speed signs.
- Gwaith wedi'u wneud ar tŷ Glanwern, Penuwch, â'r conau traffig wedi'u symud oddi yno.
Work had been carried out to Glanwern, Penuwch and traffic cones removed.
- Angen glanhau drains lan ffordd o Parcrhydderch heibio Bronaeron, Llangeitho.
Drains on the road from Parcrhydderch up passed Bronaeron, Llangeitho need to be cleared.
- Soniwyd bod cyflwr y ffordd lawr Lôn Tŷ Croes, Penuwch wedi mynd yn wael ac mae cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw cynnal y Lôn.
It was noted that the condition of the lane down towards Tŷ Croes was poor and that it was the responsibility of the County Council to maintain the lane.
- Soniwyd bod yr angen am 20mya trwy Penuwch yn ddiangen a bod angen ymateb i lythyr Elin Jones i grybwyll hyn.
It was noted that there was no need for the 20mph limit in Penuwch and that we should contact Elin Jones in writing to inform her of this.
- Culvert wedi'u lanhau ar y ffordd Alltgoch, Bwlch y Ddwyallt, Pantybeudy Hall, Llangeitho a bod y grafel dros y ffordd wedi'u glirio.
Culvert by Alltgoch/Bwlch y Ddwyallt/Pantybeudy Hall had been repaired and the gravel on the road cleared.
- Cyflwr y ffordd lawr o'r Pentref Llangeitho lawr am Bont Aeron, heol Talsarn, wedi mynd yn wael, ynghyd a'r ffordd oddi amgylch y Lôn fach o Parcrhyddech draw am Felinfawr.
Condition of the road from Llangeitho toward the bridge over the Aeron River towards Talsarn was deteriorating, as well as the road between Parcrhydderch and Felinfawr.
- Tyllau yn y ffordd lan am Bwlchffin – Tynant – Pontbregarreg.
Potholes on the road towards Bwlchffin/Tynant/Pontbregarreg.
- Disgwylir cadarnhad oddi wrth Belltown Power i glywed am prosiect Waun Maenllwyd Energy Hub a'r posibilrwydd o gynnal cyfarfod cyhoeddus.
Awaiting confirmation from Belltown Power regarding the possibility of a public meeting to provide information about the Waun Maenllwyd Energy Hub.
- Culvert ar bwys Cilrhug wedi blocio, angen ei glanhau.
Culvert by Cilrhug needs clearing.
- Tyllau mawr oddi tan Aeron View, Llangeitho, angen ail-wynebu'r ffordd draw i'r cylchfan.
Deep potholes on the road below Aeron View, Llangeitho, the road to the roundabout needs to be resurfaced.
- Angen y sweeper ar y ffordd lan o Langeitho i Penuwch, heibio Cilcert.
Sweeper needed to clean the road from Llangeitho up to Penuwch, passed Cilcert.

Llyn Fanod

Dim ymateb wedi'u dderbyn oddi wrth Cyfreithiwr Mr Edward Harris.

No response from Mr Edward Harris, Solicitor.

Cyfrifon/Accounts

- Cyflog Clerc – Mai & Mehefin '24 - £129.27 x 2 = £258.54 – *Clerk salary for May & June*
- Dwr Cymru £16.08 – *Welsh Water*
- ROSPA £103.20
- Aswariant Zurich £742.51 – *Zurich Insurance*
- Ad-daliad TAW wedi'u dderbyn yn y banc o £51.32 – *VAT refund paid into bank account.*
- Trafodwyd a chytunwyd i'r clerc gael yr hawl i fancio ar-lein trwy Barclays gan gymeradwyo'r taliadau yn y cyfarfodydd misol
It was discussed and agreed that the Clerk should be given permission to carry out on-line banking with Barclays with payments to be agreed in monthly meetings
- Balans y banc £12,148.54 – *Bank Balance*

Cynnig/Proposer: Cyng/Cllr Daniel Thomas Eiliwyd/Seconder: Cyng/Cllr Sarah Evans

Ceisiadau am Gymorth Ariannol / Financial Assistance Applications

Derbyniwyd nifer o geisiadau am gymorth ariannol, cytunwyd i gyfrannu i'r canlynol/A number of applications were received for financial support, it was agreed to support the following:-

Mynwent Capel Gwynfil Cemetery - £200; Mynwent Eglwys Llangeitho Church Cemetery - £200; Mynwent Eglwys Llanbadarn Odwyn Cemetery - £200; Mynwent Capel Penuwch Cemetery - £200; Neuadd Llangeitho Hall - £200; Sioe Llangeitho Show - £200; Cyfeillion Ysgol Rhos Helyg - £100; Cylch Meithrin Llangeitho - £100; Ysgol Sul Llangeitho - £100; Cyfanswm a gytunwyd i gyfrannu - £1,500

Cytunwyd i'r uchod ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Myrddin James

Gohebiaeth/Correspondence

Derbyniwyd a chylchredwyd arolwg ROSPA 2024, arolwg da iawn.

The report from ROSPA 2024 was received and distributed – a good report.

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Llythyr wedi'u dderbyn oddi wrth Paul Williams, Rheolwr Cyfleusterau Adeiladau, Cyngor Sir Ceredigion yn ceisio trefnu cyfarfod drwy MS Teams, i drafod dyfodol y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus yn Llangeitho, yn ystod wythnos 15-19 Gorffennaf 2024. Clerc i drefnu dyddiad cyfleus gyda'r nos, i bawb.

A letter was received from Paul Williams, Building Facility Manager, Ceredigion County Council requesting a MS Teams meeting during the week 15-19 July 2024 to discuss the future of the public conveniences in Llangeitho. The Clerk to arrange a suitable date for everyone

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Dim i'w gofnodi/Nothing to report.

Ysgol Rhos Helyg School

Dyddiad adolygiad i ddyfodol Ysgol Rhos Helyg wedi'u symud ymlaen i fis Medi. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr i feddwl am pwyntiau i ddodi yn y llythyr o gefnogaeth ac mi fyddai'r cadeirydd yn drafftio llythyr pellach i'w drafod.

The consultation date on the future of Ysgol Rhos Helyg had been moved to September. The members were asked for suggestion as to the content of the letter of support, the Chair would draft a letter to be discussed further.

Comisiwn Ffiniau / Bounday Commission

Anfonwyd 71 o lythyron o gefnogaeth ymlaen i'r Comisiwn Ffiniau, ac mae rhan fwyaf o'r bobl wedi derbyn llythyr yn cadarnhau derbyn ei llythyr.

71 letters of support had been forwarded to the Boundary Commission, and most people had received confirmation of receipt.

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Soniwyd bod cyflwr fflag yr Ysgol wedi diriwyo, gofyn i'r Prifathro a ydynt yn golygu adnewyddu'r fflag.
It was noted that the flag at the school was in a bad condition, the Headteacher to be approached to enquire as to whether they intended to replace the flag.
- Diolchwyd i Mr Orwel Davies am baentio'r cysgodfan bws yn Stags Head ac i Henry Bulman a Ifor Pugh am y paent.
Mr Orwel Davies was thanked for painting the bus shelter at Stags Head and Henry Bulman and Ifor Pugh to supplying the paint.
- Soniwyd bod pentref Llangeitho wedi mynd i edrych yn llwm iawn, llawer iawn o chwyn yn tyfu dros y pentref i gyd. Sylwer for Mr Ken Richards yn glanhau a cadw'r chwin lawr rhwng y dafarn a Llys Teg, diolchwyd iddo am ymgymrid a'r gwaith yma. Cyng Myrddin James wedi cynnig crafu'r chwyn efo bwced tractor ac i'r cynghorwyr gwrdd i dacluso lan ar ei ôl.
It was noted that Llangeitho village looked in a poor state, with overgrowing weeds in many areas. It was noted that Mr Ken Richards cleaned and weeded the area between the public house Llys Teg, he was thanked for this work. Cllr Myrddin James offered to remove the weeds with his tractor and other councillors to clear his work.

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun 2ail o Fedi 2024 yn Festri Capel Penuwch am 8 o'r gloch.

The next meeting will be held at Penuwch Chapel Vestry on Monday 2nd September 2024 at 8.00 o'clock.